

Crynodeb Gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn egluro strategaeth Cadw i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddfau Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a 2005 wrth gyflwyno eiddo hanesyddol - henebion, safleoedd archeolegol ac adeiladau hanesyddol - sydd o dan ofal Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, mae hefyd yn ystyried dyletswyddau cyrff cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal wrth gyflawni eu swyddogaethau, a gyflwynir gan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005. Mae'r strategaeth hon, yn rhannol, yn Gynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl, fel y disgrifir gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005.

Mae bron yr holl strwythurau hynafol a gyflwynir i'r cyhoedd gan Cadw yn adfeilion. Nid adeiladau ydynt lle mae pobl yn mynd at wasanaethau eraill, megis banc wedi'i leoli mewn adeilad hanesyddol. Y gwasanaeth a ddarperir yw mynediad i'r cyhoedd i'r heneb a'i gyflwyniad a'i ddehongliad.

Mae dwy ran i'r strategaeth: Mae Rhan Un yn disgrifio Cadw a'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Mae'n cyflwyno Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a deddfwriaeth arall sy'n sail i weithrediad Cadw. Mae'n parhau drwy ddisgrifio rhai o'r nodweddion ffisegol neu'r ymarferion rheoli sy'n rhwystro pobl sydd â namau yn rheolaidd rhag mwynhau mynediad cyfartal i safleoedd hanesyddol, a noda rai mathau o namau. Mae Rhan Dau yn egluro ymateb Cadw i alluogi mynediad i'w safleoedd: meini prawf blaenoriaeth, amserlenni, asesiadau ac archwiliadau mynediad. Caiff yr adrannau olaf eu hystyried wrth i archwiliadau newydd gael eu cynnal.

Nod y strategaeth yw bod yn ddogfen ddynamig a chaiff y rhagdybiaethau a'r penderfyniadau sy'n sail iddi eu hailystyried yn barhaus yng sgîl datblygu gwybodaeth ac arbenigedd yn y maes. Caiff newidiadau mewn cynllunio a thechnolegau newydd eu hasesu'n gyson ar gyfer eu

haddasrwydd wrth gyfrannu at atebion mynediad.

Caiff adolygiad llawn o'r strategaeth ei gyflawni bob dwy flynedd, er y caiff gwelliannau ac ychwanegiadau eu gwneud wrth iddynt godi. Ysgrifennwyd y strategaeth ar ôl ymgynghori â grwpiau cydraddoldeb ac anabledd, gan gynnwys Anabledd Cymru, a chaiff eu sylwadau eu hymgorffori. Oherwydd ei bod yn ddogfen 'fyw', gellir gwneud mwy o newidiadau a chroesewir cyfraniadau i'w hystyried.

Mae'r camau gweithredu a fydd yn deillio o'r strategaeth hon wedi'u hasesu o ran eu heffaith ar yr iaith Gymraeg, fel sy'n ofynnol gan arweiniad y Cynulliad Cenedlaethol, ac ystyrir y byddant yn cael effaith gadarnhaol oherwydd bydd rhai ymwelwyr anabl ychwanegol a fydd yn ymweld â'r henebion o ganlyniad i'r gwelliannau a wneir o ran mynediad yn debygol o fod yn siarad Cymraeg.